LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Ion/Chwe 2023 Cyfrol 94 Rhif 1

## Carendigrwydd

Yn dilyn eu cyfweliad ar raglen Bwrw Golwg ar BBC Radio Cymru fe gafodd Seren ac Arfon Jones, tipyn o sylw ar y cyfryngau oherwydd eu stori o haelioni a charedigrwydd.



Fel y cofiwch bu Seren yn sâl am flynyddoedd a gorfu iddi dderbyn triniaeth dialysis. Bu yn ôl ac ymlaen i'r ysbyty yn derbyn gofal arbenigol ac fe'i rhoddwyd ar restr trawsblaniad. Yn ystod cyfnod Cofid-19 fe dynnwyd ei dwy aren a olygai ei bod yn gorfod treulio 10 awr pob dydd ar beiriant dialysis. Yna ar ôl hir a hwyr daeth y newyddion da bod aren addas ar gael iddi. Derbyniodd Seren yr aren ac fe weddnewidiwyd ei bywyd yn llwyr.

Trosodd

## DATHLU'R GENI GWYRTHIOL

**M**awr fu'r llawenydd dros dymor yr Adfent gyda nifer o weithgareddau arbennig yn dathlu geni'r Meseia Iesu. Diolch i bawb fu'n helpu i baratoi ar gyfer y gwasanaethau ac i'r rhai hynny fu'n cymryd rhan mewn amryfal ffyrdd. Dechreuodd yr oedfaon tymhorol gydag oedfa ar y testun **Brenin** ar fore Sul 11eg Rhagfyr. Ystyriwyd y Brenin Herod ac yna'r Brenin Iesu gan weld y gwahaniaethau mawr oedd rhyngddynt. Canodd y parti canu, "Suai'r Gwynt" ac "A welsoch chi'r ddau..." (Troyte Chant) gan greu naws hyfryd o addoliad. Yn y prynhawn ar yr un Sul fe gafwyd oedfa o dan arweiniad yr aelodau oedd yn seiliedig ar yr adnod, 'Canys bachgen a



Gweler tud.3

**Rhoddwr Byw:** Yn ystod ei gwaeledd daeth y teulu ar draws cynllun arbennig sef Rhoddwyr Byw sy'n defnyddio organau teulu a phobl sydd wedi bod mewn damweiniau er mwyn cynorthwyo eraill. Oherwydd bod Seren wedi ei mabwysiadau nid oedd y teulu yn gallu rhoi aren yn uniongyrchol iddi. Felly dyma ymuno â Rhoddwyr Byw gan feddwl y gellid rhoi aren i rywun arall oedd mewn angen. Wedi i Seren gael aren newydd gallai Arfon fod wedi tynnu ei enw oddi ar y rhestr ond fe benderfynodd adael ei enw arni. Teimlai fod Duw am iddo wneud hyn. Dywedodd, "Pan dd'wedwyd wrthai nad oedd rhaid i fi aros ar y rhestr - o'dd e *just* fel petai ryw lais yn siarad â fi ac yn dweud bod yna Seren arall yna yn rhywle sydd angen fy aren i a fedrwn i ddim gwrthod. Ro'n i'n teimlo bod rhaid." Ac felly y bu.

Ar ddechrau mis Rhagfyr fe gafodd Arfon lawdriniaeth i dynnu ei aren er mwyn ei rhoi i rywun dienw oedd yn ddifrifol wael. Ni ŵyr pwy yw y person hwnnw ond fe ŵyr Arfon ei fod/bod yn gwella wedi'r llawdriniaeth.

Mae hon yn stori hyfryd o gariad, haelioni a diolchgarwch Cristnogol mewn byd sy'n aml yn gas, hunanol a diddiolch. Oni ddywedodd yr Arglwydd Iesu, 'Rwyt i garu dy gymydog fel rwyt ti'n dy garu dy hun.' (Mathew 22:39) a "Dylech chi drin pobl eraill fel byddech chi'n hoffi iddyn nhw'ch trin chi. (Luc 6:31) Dymunwn bob iechyd a llawenydd i Seren ac Arfon i'r dyfodol.

**Y Cylch**

Yn dilyn y cyfarfod pythefnosol o'r Cylch ar ddydd Mawrth 21/12 fe gafwyd oedfa garolau yng Nghanolfan y Methodistiaid, Yr Eglwys Newydd. Daeth 22 ynghyd i wrando ar ddarlleniadau gan Gwenda Lewis a Catrin Wooler. Cafwyd 2 fyfyrdod byr gan y gweinidog. Diolch i Helen Thomas am gyfeilio ac i Gwenda Lewis a Catrin Wooler am eu cymorth. Oni fyddai'n syniad gwych cynnal oedfa yn achlysurol yn ystod yr wythnos?

Dosbarthwyd tuniau o "Shortbread" i'r chwiorydd gan Ebeneser. Diolch i Gill Lewis am drefnu. Yng nghapel y Methodistiaid yr oeddem unwaith eto ar fore dydd Nadolig. Daeth cynulleidfa dda at ei gilydd a braf oedd cael dathlu'r geni gwyrthiol. Arweiniwyd yr oedfa gan Alun, darllenwyd o Ioan 14 gan Carys Mair Jones a chyfeiliwyd gan Helen Thomas.




**Cylchgronau - O**s hoffech gael copi o'r *Tyst* cysylltwch gydag Alison Jones. Os hoffech gael copi o'r *Cristion* cysylltwch gydag Arwel Williams ac os hoffech gael copi o fyfyrdodau *Gair y Dydd* cysylltwch gyda Petra Bennett. Os hoffech gael copi o'r Dinesydd cysylltwch gyda Gwilym Dafydd.

# DATHLU'R GENI GWYRTHIOL

aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd. Fe'i gelwir, "Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn, Tad bythol, Tywysog heddychlon".' (Eseia 9). Cymerwyd rhan gan Enfys Harding, Gwenda Lewis, Eleri Williams, Eilir Jones, Ifan Roberts, Eynon Williams a Catrin Wooler. Canodd y parti lleisiol ddwy garol sef, "Mae'r nos yn fwyn ym Methlehem", (CF 431) a "Loywaf o'r sêr", (CF 458). Diolch i Helen Thomas am eu dewis a'n hyfforddi. Cyfeiliwyd yn yr oedfa hon gan Catrin Roberts.

Y Sul dilynol(19eg) fe gafwyd dau ddigwyddiad gwahanol iawn eu natur. Yn y bore cynhaliwyd Llanllanast ar gyfer pob oed yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Daeth criw rhagorol at ei gilydd yn aelodau a theuluoedd newydd i fod yn rhan o'r digwyddiad arbennig hwn. Roedd y fendith yn amlwg ac ysbryd llawen, byrlymus yn llenwi'r lle. Bu'r tîm wrthi yn paratoi ac addurno yn y ganolfan ar y nos Sadwrn fel bod y lleoliad wedi ei harddu yn Nadoligaidd gyda goleuadau ac addurniadau. Diolchwn i Huw a Luned Aaron am baratoi'r holl grefftau, i Alison Jones ac eraill am drefnu lluniaeth blasus. Cafwyd drama fyrfyfyr yn cyflwyno prif ddigwyddiadau stori'r geni o dan arweiniad Catrin Roberts ac actorion o fri yn cymryd rhan. Cyflwynwyd neges fer gan Gwilym Jeffs yn pwysleisio arwyddocâd geni Iesu Mab Duw. Yn ei gariad gwisgodd Dduw gnawd a dod i'n plith er mwyn ein hachub rhag ein camweddau. Bu farw ar y groes trosom er mwyn ein cymodi gyda Duw gan atgyfodi ar y trydydd dydd a choncro marwolaeth. Dim rhyfedd fod yr angel wedi dweud bod ei eni yn "newyddion da o lawenydd mawr....." Braint fawr oedd cael bod yn rhan o Llanllanast.

Ar yr un Sul roedd naws pur wahanol am 6.30 yr hwyr yn yr oedfa garolau ddwyieithog gyda'n cyfeillion o'r Eglwys Fethodistaidd ond yr Un oedd testun y mawl. Fe'n croesawyd gan y Parch. Cathy Gale ac fe gafwyd darlleniadau, carolau ac eitemau gan y ddwy eglwys. Cyfeiliwyd gan Helen Thomas ac Eric Nash.

**'Dolig – Angor**

Roedd dau gyfarfod Nadoligaidd gan Angor Grangetown. Hyfryd oedd cael croesawu Meilir Geraint, Pontypridd i arwain yr addoliad ar bnawn Sul 11eg Rhagfyr yng Nghanolfan Reach. Arweiniodd ni mewn mawl gyda chaneuon newydd a charolau traddodiadol. Ef hefyd gyflwynodd y neges am ystyr y Nadolig gan bwysleisio'r angen i bobl ddeall a chredu'r neges fawr sydd ynghlwm wrth eni'r Iesu.



Yna ar nos Iau 15fed Rhagfyr cynhaliwyd noson garolau yn Y Pafiliwn Grangetown. Canolfan gyfoes gyda digon o adnoddau ac ystafelloedd i gynnal llu o weithgareddau. Arweiniwyd y canu mawl gan fand o dan arweiniad John Nicholas ac yn eu plith roedd Esyllt a Gruffydd Jones. Paratowyd lluniaeth wedyn gan griw Angor. Diolch i bawb a drefnodd y gweithgareddau hyn.

# NEWYDDION

**Cleifion**

Cofiwn am Helen Hilling sy'n parhau i dderbyn triniaeth.

Nid yw Glesni Whettleton wedi bod yn teimlo'n dda yn ddiweddar.

Cofiwn am y rhai hynny sy'n gaeth i'w cartref neu i gartref gofal: Rosaline Bowen, Beti Pierce, Mair Bennett, Delor Wedlake, Hazel Doull, Rhiannon Jones, Mair Evans.

Cofiwch weddïo drostynt a chodi'r ffôn am sgwrs.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda John, Bethan, Cai a Beca Hayes yn eu profedigaeth fel teulu. Bu farw tad John sef Desmond Hayes cyn y Nadolig yng Nghaerfyrddin.

Cydymdeimlwn gydag Enfys, Geoff ac Elin Harding yn eu profedigaeth fel teulu. Bu farw mam Enfys ar ddechrau'r flwyddyn ym Mwlch-y-groes.

Cydymdeimlwn gyda Luned, Huw, Eos ac Olwen yn eu profedigaeth fel teulu. Bu farw nain Luned sef Mair Eluned Davies ym Mhenarth ar ddechrau'r flwyddyn.

Cydymdeimlwn gydag Afryl, Gwenllian, Ynyr, Deio, Casi, a Gruffydd Glyn Davies yn eu profedigaeth lem. Bu farw Aled Glynne yn frawychus o annisgwyl ar ddechrau'r flwyddyn.

Cydymdeimlwn gyda'r teuluoedd hyn yn eu hiraeth gan weddïo y bydd atgyfodiad yr Iesu a'i fuddugoliaeth dros angau yn sail gobaith iddynt i'r dyfodol.

**Penblwyddi arbennig**

Yn ystod y mis diwethaf fe ddathlodd rhai o'n cyd-aelodau benblwyddi go arbennig.

Llongyfarchiadau mawr iawn i Glesni Whettleton ar ei phen-blwydd yn 80 oed.

Llongyfarchiadau mawr iawn i Ifan Roberts wrth iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 70oed.

**Dymuniadau Da**

Pob dymuniad da i John Hayes ar ei ymddeoliad fel Pennaeth Ysgol Plasmawr ar ôl 15 mlynedd o waith clodwiw a chaled. Diolchwn yn fawr iawn iddo am ei waith rhagorol yn arwain yr ysgol mewn cyfnod a fu ar brydiau yn eithriadol o heriol ac am ei gyfraniad mawr tuag at addysg Gymraeg yn y brifddinas. Pob llawenydd ac iechyd iddo ef a Bethan yn ystod y blynyddoedd nesaf.

**Llyfrynnau**

Fe gyflwynodd eglwys Ebeneser 130 o lyfrynnau Nadolig Cymdeithas y Beibl sef "Anhygoel ddydd - Hanes y Nadolig Cyntaf Un", yn rhodd i ddisgyblion hynaf Ysgol Melin Gruffydd. O fewn i bob llyfryn rhoddwyd hysbys yn tynnu sylw at Glwb Sêr Ebeneser yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Diolch i Rachel Jones am eu harchebu.

## Ymadawiad

Ychydig cyn y Nadolig fe symudodd Beti Wyn Davies o Benarth i fyw yn nes at y teulu yn Southampton. Bu Beti a'r diweddar Denzil yn aelodau ffyddlon a gweithgar o eglwys Ebeneser mewn cymaint o ffyrdd ers y pumdegau. I ddweud y gwir yn Ebeneser y dechreuodd eu carwriaeth. Fe roesant o'u doniau, eu hamser a'u hadnoddau i waith yr Arglwydd gan ddangos haelioni anghyffredin. Yr oeddent yn gwbl ymroddedig i waith yr eglwys ac yn gefnogol i'r tri gweinidog fu yma sef Emlyn Jenkins, Geraint Tudur ac Alun Tudur. Hoffem ddiolch i'r Arglwydd am gael eu cwmni cyhyd. Dymunwn yn dda iawn i Beti Wyn yn ei chartref newydd gan weddïo y bydd yn ymgartrefu yno ac er mwyn cadw cysylltiad y mae hi am i ni rannu ei manylion newydd. Cyfeiriad newydd Beti Wyn Davies yw 4 Solent Pines, Whitby Rd. Milford on Sea, Hampshire, SO41 0UX. Rhif ffôn: 01590 642 580.

## Tir Dewi

Daeth ein blwyddyn o godi arian er budd Elusen **Tir Dewi** i ben. Diolch i bawb am eu cymorth yn enwedig y pwyllgor fu wrthi yn cynorthwyo. Nid yw'r cyfanswm gennym eto gan ein bod yn casglu, ar hyn o bryd, eich arian "cadw mi gei". Felly os oes gennych gelc o arian i'w gyfrannu gellir gwneud hynny trwy law ein Trysorydd Eilir Jones.

## Elusennau 2023

Yn ystod y 6 mis cyntaf o'r flwyddyn y mae argymhelliad gan y diaconiaid ein bod yn codi arian er budd un o brosiectau **Tearfund**. Ym mis Chwefror bydd Cynan Llwyd, Cynrychiolydd Tearfund Cymru yn dod i rannu gyda ni am y gwaith.

Ym mis Mehefin 2023 bydd **Undeb yr Annibynwyr** yn lansio apêl Columbia mewn cydweithrediad â **Chymorth Cristnogol** fydd yn parhau am flwyddyn. Mae'r diaconiaid am argymell i eglwys Ebeneser i gefnogi'r apêl hon.

## Cludo

Y mae nifer o wirfoddolwyr yn barod i roi lifft i unrhyw un ohonoch sydd yn awyddus i ddod i'n cyfarfodydd. Cysylltwch gydag Alun er mwyn inni drefnu eich cludo. Y mae rhai eisoes yn rhan o'r cynllun er mwyn dod i oedfa'r pnawn.

# ATGOFION PANTEG

**D**erbyniais anrheg arbennig a diddorol ar gyfer Nadolig 2022 - Hanes Eglwys Panteg lle magwyd fi. Ysgrifennwyd y gyfrol yn 1921. Dechreuwyd yr achos yn 1820. Gorfu iddynt adeiladu capel mwy o faint bedair gwaith oherwydd chwyddiant yr aelodau. Yr un presennol yw'r un a gofiaf i sy'n dal mil o addolwyr, côr capel a cherddorfa. Rwy'n ddigon hen i gofio cynulleidfa luosog iawn ar y Sul - rhyw bum cant, a'r côr yn canu anthem bob nos Sul.
Daeth hiraeth drosta i am ddyddiau a fu wrth edrych ar luniau'r swyddogion a'n nhad-cu, yn yr un o 1921. "Wel," meddw chi, "mae hyn ganrif yn ôl." Y capel oedd hwb y gymdeithas bryd hynny. Mae'r oes wedi newid! Cytuno â chi.

"Mae Duw yr un ddoe, heddiw ac yn dragywydd," ond ydy hynny'n wir heddiw? Ond teimlaf nad y Duw Byw yw gwrthrych ein haddoliad bellach. Rhoddir pethau materol yn "priority."
Ond pan ddigwydd amgylchiadau, megis rhyfeloedd, llifogydd dinistriol, ac afiechydon; naill ai ni'n troi at Dduw am atebion i *Pam?,* neu ni'n ymbil arno i'n gwaredu. Mae'r Arglwydd ein Creawdwr ni yma o hyd. Nesáu at Dduw sydd dda i ni.
Felly, gofynnwn ar ddechrau 2023 am iddo faddau i ni am droi cefn arno, a rhoi ein hunain yn llwyr i'w wasanaethu a'i glodfori.
"A oes yna le i Iesu eleni? Holed dyn ef ei hun, a minnau gyda chi. Blwyddyn Newydd Dda i bawb. **Melora.**

---

# SULIADUR CHWEFROR - MAI 2023

| CHWEFROR | MAWRTH | EBRILL | MAI |
|---|---|---|---|
| **5** Alun Tudur. Cymun yn y pawn | **5** Alun Tudur. Cymun yn y pnawn. | **2** Alun Tudur. Cymun yn y pnawn | **7** Alun Tudur. Cymun yn y pnawn |
| **12** Alun Tudur | **12** Bore - Sul y Cyfundeb. Pnawn - Alun Tudur | **9** Sul y Pasg. Alun Tudur. Cymun yn y bore | **14** Alun Tudur |
| **19** Alun Tudur | **19** Alun Tudur. Cymun yn y bore | **16** - I'w drefnu | **21** Alun Tudur |
| **26** John Roberts | **26** Gwilym Tudur | **23** Alun Tudur | **28** Siân Meinir |
| | | **30** Alun Tudur | |

# SALM 61
# MYFYRDOD

*Darllenwch Salm 61.*

***Gweddïwn:*** *Arglwydd, wrth i mi ddarllen dy eiriau di gweddïaf y bydd yr YsbrydGlân yn fy helpu i ymaflyd â'r geiriau, fel fy mod yn clywed llais Duw ac yn gweld perthnasedd y Salm i'm bwyd. Yn enw Iesu. Amen.*

**R**ydym yn byw mewn cyfnod eithriadol o ansefydlog, yn ysbrydol, yn wleidyddol, yn gymdeithasol, yn economaidd a hefyd o ran dyfodol y cread ei hun. Gallwn deimlo fod y cwbl yn siglo ac nad oes obaith inni a bod y tywyllwch yn cau amdanom. Ond yn y Salm hon fe geir sicrwydd yn Nuw ei hun. Yn ei natur a'i briodoleddau, ei gariad a'i ffyddlondeb. Fel Cristnogion rydym i edrych ar fywyd yng nghyd-destun Duw ac nid edrych ar Dduw yng nghyd-destun ein bywyd.

**Y**n y Salm hon mae'r Salmydd yn cadarnhau ein ffydd ac yn tawelu unrhyw ofnau sydd gennym trwy ein hannog i fyfyrio ar Dduw. Ysgrifennwyd Salm 61 mewn cyfnod tywyll ym mywyd Dafydd. Roedd ar ffo un ai oddi wrth y Brenin Saul neu ei fab Absalom. Roedd y ddau ar gyfnodau gwahanol am ei waed. Yma mae Dafydd yn atgoffa ei hun o natur Duw a'i ofal dros ei bobl. Mor bwysig yw treulio amser yn gyson i fyfyrio ar Dduw wrth i ni fyw ein bywydau. Os na wnawn hynny y mae ofn, anobaith a gor-bryder yn mynd yn drech na ni. Wrth fyfyrio ar Dduw, fel y gwelwn yma, fe ddaw sicrwydd ynghanol problemau ac mae hynny'n ein nerthu i ddyfalbarhau. Dewch inni gerdded trwy ran gyntaf y Salm, gymal wrth gymal,

## Adnod 1 a 2

*[1]Clyw fy nghri, O Dduw, a gwrando ar fy ngweddi; o eithaf y ddaear yr wyf yn galw arnat, pan yw fy nghalon ar suddo. BCND*

**A**r ddechrau'r Salm mae Dafydd yn ymbilio yn bersonol ar i Dduw wrando ar ei weddi ynghanol ei drafferthion. Wrth i'w elynion chwilio amdano er mwyn ceisio ei niweidio a'i ladd. Dywed "Clyw fy nghri", (BCND) "llefain" (BWM) sy'n awgrymu person yn gweiddi mewn sefyllfa o angen. Ac yna mae'n gofyn i Dduw i wrando ar ei weddi. Mae addewid llawn cysur i ni gan yr Iesu, meddai yn, Ioan 14,

*"Beth bynnag a ofynnwch yn fy enw i, fe'i gwnaf, er mwyn i'r Tad gael ei ogoneddu yn y Mab. Os gofynnwch unrhyw beth i mi yn fy enw i, fe'i gwnaf." Ioan 14:13-14*

**M**ae'n gwbl hanfodol ein bod yn troi at Dduw ym mhob amgylchiad mewn gweddi, dydy ddim o bwys pa mor ddyrys yw'r broblem, dydy ddim o bwys pa mor isel yr ydym yn teimlo, dydy ddim o bwys os nad ydym yn deall beth sydd yn digwydd. Oherwydd yn y gymdeithas gyda Duw y mae nerth a

chynhaliaeth. Rhaid bod Dafydd yn cuddio yn rhywle yn bell o gartref, yn y creigiau neu mewn ogof ddigysur. Meddai “o eithaf y ddaear yr wyf yn galw arnat, pan yw fy nghalon ar suddo.” Roedd yn ddigalon ac yn isel ei ysbryd – eto mae'n galw ar Dduw i wrando arno ac i fod yn help iddo yn ei gyfyngderau. Pan mae'ch calon yn suddo a phan mae tywyllwch anobaith yn cau amdanoch, galwch ar Dduw yn enw'r Iesu a bydd ef yn trugarhau ac yn nerthu. Sut? Wel, gyda'i bresenoldeb a'i Ysbryd, gyda'i addewidion sicr, gyda'i gariad rhyfeddol Yna cawn y geiriau cyfarwydd –

*Arwain fi at graig sy'n uwch na mi; - Salm 61:2*

Y darlun ddaeth i'm meddwl wrth ddarllen yr adnod hon oedd o blentyn gyda chi yn agos ato yn peri dychryn. Yna mae'r plentyn yn dychryn ac yn agosáu at ei fam. “Clinging” fyddai'r gair Saesneg. *Cluro* oedd mam yn galw hyn. Yna mae'r fam yn ei godi ac yn ei osod ar wal, fel na all y ci ddod yn agos ato. Mae Dafydd yn gofyn i Dduw ei godi i dir uwch a diogel. Efallai ei fod yn meddwl yng nghyd-destun môr neu lifogydd a'r dŵr yn cau amdano a bod angen tir uwch. A ble mae'r tir uchel? Duw ei hun ydyw a'r diogelwch a gawn trwy'r Iesu. Mae'r Iesu yn graig sydd yn ein hachub ac yn ein diogelu hyd dragwyddoldeb. Swatiwch yn ei gariad heddiw ac ymlaciwch.Hon yw'r adnod ysbrydololodd MORSWYN 1850-93 i ysgrifennu ei emyn cofiadwy,

Arglwydd Iesu, arwain f'enaid
at y graig sydd uwch na mi,
craig safadwy mewn tymhestloedd,
craig a ddeil yng ngrym y lli;
llechu wnaf yng nghraig yr oesoedd,
deued dilyw, deued tân,
a phan chwalo'r greadigaeth
craig yr oesoedd fydd fy nghân.

**Adnod 2 - 4:** *Arwain fi at graig sy'n uwch na mi; 3oherwydd buost ti'n gysgod imi, yn dŵr cadarn rhag y gelyn.Gad imi aros yn dy babell am byth, a llochesu dan gysgod dy adenydd.* Yma mae'n cydnabod ei fod wedi profi diogelwch Duw yn y gorffennol, “buost ti'n gysgod i mi,” meddai. Defnyddia 4 darlun i ddisgrifio hyn sef, cysgod, tŵr, pabell ac adenydd.

**Cysgod** – rhag gwres yr haul, y gwynt a'r stormydd. Yn oes y *double glazing,* ceir clyd ac amodau gwaith clyd, mae'n hawdd anghofio pwysigrwydd cysgod. Mae Duw yn gysgod inni ynghanol drycinoedd.

**Tŵr** - Yn yr hen fyd roedd tyrrau yn lleoedd diogel rhag crafangau gelynion, eu saethau a'u cleddyfau ac roedd yn hawdd eu hamddiffyn hyd ddyfodiad powdr gwn.

**Pabell** - Efallai ei fod yn meddwl yma am y Tabernacl neu am babell yn gyffredinol. Wrth deithio roedd pabell yn hanfodol ar gyfer gwres, cysur a chysgod ar eich teithiau.

**Adenydd** – fel iâr yn gwarchod ei chywion gyda'i hadenydd felly y mae'r Arglwydd yn ei gariad yn ein gwarchod ninnau.

Darluniau byw sy'n dangos ac esbonio natur y Duw a'i ofal dros ei bobl. Nid oes dim yn cryfhau ffydd y Cristion yn fwy na chofio daioni Duw tuag ato yn y gorffennol.

## Noson Allan



Fel rhan o'n dathliadau Nadolig aeth criw o Ebenser i Neuadd Dewis Sant ar gyfer Night Out at the Movies. Cawsom wledd yn gwrando ar Gerddorfa Philarmonig Caerdydd yn perfformio themau byd enwog o ffilmiau fel James Bond, Indiana Jones. Roedd dau o'n haelodau yn rhan o'r gerddorfa sef Gwenda Lewis ac Esyllt Jones.

## Hysbysebu

Rydym wedi archebu hysbysfwrdd i'w osod y tu allan i gapel y Methodistiaid, yn yr Eglwys Newydd yn tynnu sylw at y ffaith fod Ebeneser yn cynnal gweithgareddau yno. Yn yr archeb hefyd y mae baner newydd i'w gosod y tu allan i Ganolfan yr Eglwys Newydd a dau lanlen (popup). Hefyd y mae Angor Grangetown wedi archebu baneri i'w gosod y tu allan i Ganolfan Reach a lanlenni er mwyn tynnu sylw at eu gwaith.

---

## CLWB SÊR

Mae Clwb Sêr wedi bod yn cyfarfod bob bore Sul yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd ac rydym yn ceisio annog rhagor o deuluoedd i ymuno gyda ni yn gyson. Er rhaid cyfaddef fod hynny yn dalcen caled ar hyn o bryd. Hoffem eich annog i weddïo dros y gwaith hanfodol hwn ym mywyd eglwys Ebeneser gan ofyn i'r Arglwydd roi ar galon rhieni i ddod a'u plant i ddysgu am Iesu.

Diolchwn yn fawr iawn i'r tîm ffyddlon sydd wrthi yn paratoi a dysgu'r plant o fis i fis am eu hymroddiad.

## ODID

Y mae astudiaeth Feiblaidd ODID yn parhau i gyfarfod ac o'r diwedd rydym yn mynd o dŷ i dŷ. Cynhelir y cyfarfodydd nesaf - os Duw a'i myn - ar Chwefror 14. Yn y cyfarfodydd hyn byddwn yn dilyn cyfres gan Tim Keller, "*The Prodigal God: Finding Your Place at the Table*." Dewch i fod yn rhan o'r drafodaeth.

## Gwasanaethau ar CD

**O**s hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD wedi ei bostio i'ch cartref cysylltwch gyda Carys Mair Jones ar 07824 337251.

## DILLAD A BWYD

**M**ae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd a'r dillad yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni.

**Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod yr wythnos gyntaf lawn o bob mis.**

Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones er mwyn trefnu casglu.

**Paradise Run -** Y mae elusen Enfys Gobaith am ailgychwyn y Paradise Run fydd yn bwydo'r digartref yng nghanol dinas Caerdydd pob nos am 8.00 yh. Mae Ebeneser yn codi tîm i helpu ar nos Sul 1 waith pob 4 wythnos. Os gallwch chi helpu anfonwch destun at Alun ar 07814 536208

**Recordiadau -** Gellir gwrando ar holl bregethau Ebeneser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur.Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Ryan Jones am ei help.

**Tîm Digidol -** Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. E.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar (Twitter), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

**Gosod a Gofal -** Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd wedi cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul a hefyd gyda gweithredu rheolau hylendid COVID-19. Mae wedi golygu llawer o waith ychwanegol. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur am ei holl help.

## CYFRANIADAU

**Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser yn ystod 2022. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn eich haelioni tuag at waith hollbwysig yr Arglwydd Iesu trwy gytfrwng Ebeneser.**

Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, un ai:

Trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod. Gyda diolch o flaen llaw am eich haelioni.

# Calendr

*Cynhelir oedfa’r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD
*Cynhelir oedfa’r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA
*Cynhelir **Angor** yn Reach Centre, Avondale Street, Grangetown, CF11 7DT
7.30 - Pob nos Lun, cynhelir y **cwrdd gweddi** yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.
7.30 - Pob pythefnos, ar nos Fawrth, cynhelir **Astudiaeth Feiblaidd, ODID** o dŷ i dŷ ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

# Chwefror

**05 Dydd Sul.** 10.00 – Llanllanast yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 10.00 – Addoliad o dan arweiniad Alun. 3.00 – Oedfa Gymun yng Nghapel y Methodistiaid.
**07** 10.30 – 11.30 Y Cylch yn gyfarfod yng nghaffi Roundabout yr Eglwys Newydd.
**07** 7.15 – Cwrdd diaconiaid yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom.
**12 Dydd Sul.** 10.00 – Clwb Sêr yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 10.00 – Addoliad o dan arweiniad Alun. Paned a ffrwd byw.Ysgol Sul oedolion wedi’r oedfa. 3.00 – Oedfa o fawl yng Nghapel y Methodistiaid. 4.30 Angor yng Nghanolfan Reach, Grangetown.
**19 Dydd Sul.** Dim Clwb Sêr, hanner tymor. 10.00 – Addoliad o dan arweiniad Alun. Paned a ffrwd byw. Ysgol Sul oedolion wedi’r oedfa. 3.00 – Oedfa o fawl yng Nghapel y Methodistiaid.
**21** 10.30 – 11.30 Y Cylch yn gyfarfod yng nghaffi Roundabout yr Eglwys Newydd.
**26 Dydd Sul.** Dim Clwb Sêr, hanner tymor. 10.00 – Addoliad o dan arweiniad Alun. 3.00 – Oedfa o fawl yng Nghapel y Methodistiaid. 4.30 Angor yng Nghanolfan Reach, Grangetown.

# Mawrth

**01** Cinio Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd. Cwrdd am 12.00 erbyn cinio am 12.30

**05 Dydd Sul.** 10.00 – Llanllanast yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 10.00 – Addoliad o dan arweiniad Alun. 3.00 – Oedfa Gymun yng Nghapel y Methodistiaid.

**07** 10.30 – 11.30 Y Cylch yn gyfarfod yng nghaffi Roundabout yr Eglwys Newydd.

07 7.15 – Cwrdd diaconiaid yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom.

**12 Dydd Sul**. Sul Sbesial Annibynwyr Dwyrain Morgannwg yng Nghanolfan yr Urdd.

**19** 10.00 - Clwb Sêr yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 10.00 - Addoliad o dan arweiniad Alun. Paned Ffrwd byw. Ysgol Sul oedolion wedi'r oedfa. 3.00 - Oedfa o fawl yng Nghapel y Methodistiaid. 4.30 Angor yng Nghanolfan Reach, Grangetown.

**21** 10.30 – 11.30 Y Cylch yn gyfarfod yng nghaffi Roundabout yr Eglwys Newydd.

**26 Dydd Sul.** 10.00 - Clwb Sêr yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 10.00 – Addoliad o dan arweiniad y Parch. Gwilym Tudur, Aberystwyth. 3.00 – Oedfa o fawl yng Nghapel y Methodistiaid. 4.30 - Angor yng Nghanolfan Reach, Grangetown.

